Royal College of Physicians | Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

# Myfyrdodau tymhorol | Adolygiad blynyddol Coleg Brenhinol y Meddygon yng Nghymru

## Rhagfyr 2021

Wrth imi gyrraedd diwedd fy ail flwyddyn fel is-lywydd yr RCP yng Nghymru, a fy mlog olaf am eleni, mae'n bleser cael cyflwyno crynodeb o'r gwaith a wnaed gan eich tîm yn RCP Cymru Wales yn ystod 2021. Rydym wedi cyflawni cymaint o'n blaenoriaethau ymgyrchu ar gyfer y DU gyfan, wrth inni weithio i sicrhau:

- gweithlu meddygol cynaliadwy sy'n diwallu anghenion cleifion
- ymagwedd at iechyd sy'n integredig ac yn canolbwyntio ar bobl
- polisi iechyd sy'n cael ei arwain gan yr ymchwil a'r arloesi diweddaraf
- lleihad mewn anghydraddoldebau iechyd a phwyslais ar atal afiechyd.

Bu 2021 yn flwyddyn gythryblus ac anodd. Er gwaethaf hyn, ni lwyddodd y pandemig i atal gweithgarwch y coleg yng Nghymru. Ond mi oedd wedi golygu ein bod wedi gorfod gwneud pethau'n wahanol – roedd cyfarfodydd rhithiol wedi galluogi tri ymweliad llywyddol, cynhaliwyd ymgyrch bosteri ar-lein ar gyfer meddygon dan hyfforddiant a llwyddodd ein diweddariad digidol cyntaf erioed mewn meddygaeth i ddenu cannoedd o gynrychiolwyr ym mis Rhagfyr.

**Pum buddugoliaeth fawr yn 2021**

- Dilynwyd tri o adroddiadau ymweliad llywydd yr RCP gan gynlluniau gweithredu byrddau iechyd.
- Dros 70 o ymddangosiadau ar y cyfryngau, yn codi ymwybyddiaeth o negeseuon ein hymgyrch Gymreig.
- 685 o gynrychiolwyr wedi archebu lle ar Ddiweddariad yr RCP a oedd wedi'i drefnu gan dîm Cymru.
- Chwech o adroddiadau RCP wedi'u cyhoeddi yn arwain at sylw mewn print, ar-lein, ar y radio a'r teledu.
- Dros 100 o gyfarfodydd rhanddeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys y gweinidog iechyd.

Yn bersonol, ymgysylltu â'n haelodau yw fy mhrif flaenoriaeth. Er bod yn well gen i dreulio amser â chi wyneb yn wyneb, rwyf wedi addasu i gyfarfodydd rhithiol. A bod yn deg, mae hwylustod Microsoft Teams wedi golygu fy mod o bosibl wedi treulio mwy o amser ag aelodau eleni nag erioed o'r blaen, ac mae wedi bod yn brofiad emosiynol gwrando ar yr heriau enfawr mae pawb wedi gorfod eu hwynebu, yn ogystal â'r gwaith i ddarparu gofal diogel i gleifion a'r holl arloesi a welwyd yn y GIG. Mae'r tîm yng Nghymru'n dal i ddatblygu cyfleoedd addysg a rhwydweithio newydd, gyda phum cyfarfod tiwtoriaid coleg cyfan/colegau cyswllt, fforwm ymgynghorwyr brwdfrydig newydd a gweminar meddygaeth acíwt ar feddygaeth mamolaeth – i gyd wedi'u trefnu gan dîm RCP Cymru Wales ar gyfer cynulleidfa DU gyfan.

Yn olaf, byddai'n amhosibl imi wneud fy ngwaith heb gefnogaeth ein pedwar cynghorydd rhanbarthol: y Meddygon Mick Kumwenda, Hilary Williams, Vivek Goel a Sam Rice, a gweddill Pwyllgor RCP Cymru Wales a'n tiwtoriaid colegau a cholegau cyswllt, yn ogystal â Dr Shaun Smale, pennaeth yr ysgol feddygaeth yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Diolch hefyd i'n tiwtor arweiniol sy'n ein gadael, Dr Jo Morris a'r cynrychiolydd ymgynghorwyr newydd, Dr Justyna Witczak sydd i gyd wedi gweithio'n ddiflino i greu rhwydweithiau ac i rannu dysgu ledled Cymru. Yn bwysicaf oll, mae Lowri Jackson, ein pennaeth polisi ac ymgyrchoedd a Jacqui Sullivan, ein rheolwr rhanbarthol wedi bod yn angor imi – diolch o galon i chi gyd.

**Gweithlu meddygol cynaliadwy**

Ym mis Mawrth 2021, buom yn paratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021 drwy gyhoeddi *Adfer, ailadeiladu, adnewyddu,* oedd yn disgrifio'r hyn roeddem am ei gael gan Lywodraeth newydd Cymru .

Rhannwyd y ddogfen â gweinidogion Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a gwleidyddion y Senedd a chafodd lawer o sylw yn y cyfryngau – roedd cyfweliadau ar y BBC ac ITV gyda Roshna Roy (myfyrwraig meddygaeth), Dr Emma Rengasamy (meddyg sylfaen), a Dr Ruth Williams (meddyg anadlol ymgynghorol) yn rhai grymus dros ben.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, trefnwyd ymweliadau'r llywydd â'r gogledd a'r de-ddwyrain. Ym mis Mai, buom yn ymweld ag Ysbyty Maelor Wrecsam, ac ym mis Mehefin ag Ysbyty Athrofaol y Faenor, lle cawson adborth uniongyrchol gan feddygon sy'n gweithio yn yr ysbytai hyn. Mae adroddiadau wedi'u cyhoeddi, argymhellon wedi'u gwneud, cynlluniau gweithredu wedi'u llunio gan fyrddau iechyd, ac mae cynnydd mawr yn cael ei wneud gan bawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Ym mis Tachwedd, buom yn ymweld â BIP Bae Abertawe a byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad yn y man. Ein gwaith yw codi llais ar eich rhan, ac rwyf am ddiolch i'r holl feddygon a'r cymdeithion meddygol hynny sydd wedi cyfrannu at y cyfarfodydd hyn. Ni all newidiadau ddigwydd heb i bawb fod yn onest ac agored, ac ni allwn adrodd eich storïau chi oni bai eich bod yn barod i'w rhannu.

Dr Sam Rice oedd yr ysgogiad wrth wraidd ein digwyddiad Cyswllt RCP Connect cyntaf erioed yn y de-orllewin ym mis Mawrth. Cafodd yr adroddiad dilynol, *Gwneud y cysylltiad: Byw a gweithio drwy'r pandemig yn ne-orllewin Cymru* lawer o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau.

Ym mis Medi, bu Dr Nerys Conway (sydd ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd) yn cadeirio'r diweddaraf mewn cyfres o weithdai #WalesFutureLeaders. Y tro hwn, aethom ar-lein i glywed gan feddygon o bob rhan o Gymru sut yr oeddent wedi addasu i wahanol ffyrdd o weithio yn ystod y pandemig a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt.

Rwyf yn falch o gael dweud wrthych ein bod wedi dechrau ar y gwaith i ddatblygu rhwydwaith SAS i Gymru. Bydd Dr Jacob Daniel, ein SAS arweiniol yng Nghymru, yn cadeirio cyfarfod amser cinio yn y flwyddyn newydd lle byddwn yn dod â meddygon arbenigol at ei gilydd i hybu dysgu a rhwydweithio. Lledaenwch!

**Cefnogi a hyrwyddo ein meddygon dan hyfforddiant**

Unwaith eto, ni allaf ond rhyfeddu o glywed am frwdfrydedd ein hyfforddeion a'r holl arloesi maent yn gyfrifol amdano.

Eleni enillwyd cymrodoriaeth Lewis Thomas Gibbon Jenkins o Lansawel gan Dr David Williams. Yn ystod y 2 flynedd nesaf, bydd yn ymchwilio i therapi glwcocorticoid a pheryglon argyfwng adrenal a chanlyniadau ysbyty niweidiol mawr. Rwyf yn edrych ymlaen at glywed mwy am ei ganfyddiadau yn y man.

Roedd yn flwyddyn lewyrchus arall i gystadleuaeth posteri Cymru. Roeddwn wedi rhyfeddu i glywed ein bod wedi cael dros 60 o gystadleuwyr eleni, gydag 20 yn cyrraedd y rhestr fer. Dyfarnodd y beirniaid – Dr Shaun Smale, Dr Hilary Williams a Dr Jon Goodfellow – y wobr gyntaf i Dr Emily Appadurai, yr ail i Dr Mark Ponsford a'r drydedd i Dr Ben Pyrke. Cafodd y 30 detholiad a sicrhaodd y sgoriau uchaf eu cyhoeddi yn Wales abstract booklet 2021. Diolch yn fawr iawn i AaGIC am ariannu'r gwobrau.

Ym mis Gorffennaf, datblygwyd rhaglen gynhadledd y DU gyfan *Call the medical registrar* lwyddiannus arall gan gynrychiolydd pwyllgor hyfforddeion RCP Cymru Wales, Dr Melanie Nana, mewn cydweithrediad â'r dirprwy gofrestrydd Dr Alastair Gilmore a Phwyllgor Hyfforddeion DU gyfan yr RCP.

Yn olaf, rwyf yn falch o gyhoeddi mai Dr Scott O'Rourke o Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli yw enillydd Cymru gwobr ddarlith Turner Warwick am 2021. Mae ei anerchiad ar botensial metabolomeg wrth wneud diagnosis a monitro syndrom apnoea hypopnoea cwsg ataliol ar gael i'w wylio ar RCP Player.

**Dull iechyd sy'n integredig ac yn canolbwyntio ar bobl**

Ar ddechrau'r flwyddyn, pan oedd ail don COVID-19 yn ei hanterth, cysylltodd aelodau'r RCP â ni i dynnu sylw at bryderon ynghylch diogelwch cleifion oherwydd trosglwyddiad nosocomiaidd. Roeddem yn allweddol drwy berswadio Llywodraeth Cymru i newid ei chanllaw COVID-19 ar ryddhau o ysbytai i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal.

Wrth i'r ail don edwino, cyhoeddwyd llythyr gennym gan y Gyfadran Meddygaeth Gofal Dwys, yn diolch i feddygon yng Nghymru am bopeth a wnaed ganddynt yn ystod y pandemig. Ym mis Hydref, cyhoeddwyd *Snowed under? Our call for winter action,* a gymeradwywyd gan 16 coleg brenhinol a chyfadran, yn ogystal ag Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru. Roedd yn braf cael y fath sylw yn y cyfryngau.

Ym mis Tachwedd daeth 22 o sefydliadau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd i'n cefnogi i gyhoeddi *Rhoi terfyn ar y loteri cod post*, sy'n galw am un corff gweithredol cenedlaethol i oruchwylio byrddau iechyd Cymru yn strategol. Yn y flwyddyn newydd byddwn yn gwneud ein gorau glas i ddarbwyllo llywodraeth Cymru y byddai Gweithrediaeth GIG Cymru annibynnol mewn sefyllfa well i wella gofal cleifion a chyflawni nodau *Cymru Iachach*, cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Rwyf hefyd wedi bod yn gweithio y tu ôl i'r llenni â Dr Chris Subbe yn Ysbyty Gwynedd, Dr John Dean yn yr RCP yn Llundain a'r Athro John Boulton yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar amrywiaeth o brosiectau i foderneiddio rowndiau wardiau a chlinigau cleifion allanol yn barod am y cyfnod ar ôl y pandemig.

**Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd**

Cyn etholiadau'r Senedd, ysgrifennwyd at y Prif Weinidog yn galw am strategaeth drawslywodraethol ar anghydraddoldebau iechyd. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan 34 o sefydliadau yn y meysydd iechyd, llywodraeth leol, tai a gofal cymdeithasol. Yn ddiweddarach cyhoeddwyd *Gwneud y gwahaniaeth: Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru,* ac a gymeradwywyd gan 36 o sefydliadau. Fel rhan o'r ymgyrch hon, rydym wedi cwrdd â'r gweinidog iechyd, Cadeirydd Pwyllgor Iechyd y Senedd, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Mae llawer yn digwydd i gyfleu'r neges ei bod yn wirioneddol bwysig ein bod yn mynd i'r afael ag afiechydon y gellid eu hatal!

Rwyf hefyd wedi mwynhau cynnal cyfres o bodlediadau fideo 'In conversation with…' lle'r wyf yn cael cyfle i gyfweld pobl ddiddorol ynghylch pethau diddorol. Os oes gennych 10 munud, agorwch RCP Player lle gallwch fy ngwylio'n sgwrsio â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a chyfarwyddwr melin drafod y Comisiwn Bevan. Rwyf hyd yn oed yn gofyn iddynt awgrymu llyfr sy'n werth ei ddarllen!

**Gweithio ag eraill**

Mae siarad â'r cyfryngau ar eich rhan yn elfen bwysig o fy rôl. Mae codi ymwybyddiaeth o'r pethau sy'n wynebu ein haelodau'n hanfodol, ac yn ystod y flwyddyn rwyf wedi siarad mewn cyfweliadau radio a theledu dros 70 o weithiau, gan dynnu sylw at y pethau sy'n bwysig i chi. Llwyddodd Dr Andrew Lansdown, un o'n tiwtoriaid coleg, i ymddangos ar dudalen flaen y *Western Mail* yn dilyn cyfweliad â *BBC 5 Live* am bwysau'r gaeaf ar wasanaethau!

Mae ein storïau newyddion yn cael sylw rheolaidd gan y *Western Mail*, *WalesOnline*, *Golwg* a bwletinau newyddion radio masnachol yng Nghymru. Mae gan ein cyfrif Twitter @RCPWales bellach dros 1,000 o ddilynwyr ac mae'n ffordd dda o ymgysylltu â'n cynulleidfa ar-lein. Rwyf yn eich annog i'n dilyn os nad ydych yn gwneud eisoes! Rydym yn parhau i chwarae rôl weithgar a blaenllaw mewn grwpiau trawsbleidiol yn y Senedd, Awyr Iach Cymru, Cynghrair Rheoli Tybaco Cymru, Cynghrair Gordewdra Cymru, Cynghrair Iechyd a Lles Cydffederasiwn GIG Cymru, Grŵp Cynghori Arbenigwyr Iechyd Meddwl y Coleg Brenhinol ac Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru.

**Dylanwadu dros newid**

Mae'n deg dweud bod yr RCP wedi hen ennill ei blwyf fel prif ladmerydd ar y llwyfan gwleidyddol yng Nghymru. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â gweinidogion Llywodraeth Cymru, gwleidyddion y Senedd, y Prif Swyddog Meddygol, cyfarwyddwyr gweithredol GIG Cymru a rhanddeiliaid o'r trydydd sector. Mae Aelodau o'r Senedd yn cyfeirio atom yn aml yn ystod dadleuon yng Nghyfarfodydd Llawn y Senedd, yn enwedig ein hymgyrchoedd ar y gweithlu meddygol ac anghydraddoldebau iechyd, ac rydym wedi ymateb i nifer fawr o ymgynghoriadau ac ymchwiliadau. Er enghraifft, rwyf yn cynrychioli Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru mewn cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru ynghylch diweddaru canllaw'r AAC. Rydym yn parhau i annog colegau i gymryd rhan ym mhenodiad swyddi ymgynghorwyr a chymeradwyo swydd ddisgrifiadau.

**Cymru ar lwyfan yr RCP**

Un o'r agweddau ar fy rôl sy'n rhoi mwyaf o foddhad imi yw hyrwyddo Cymru a'i meddygon o fewn y coleg ehangach. Rwyf yn falch iawn o ddweud bod diweddariad rhithiol cyntaf erioed yr RCP mewn meddygaeth wedi'i drefnu gan dîm RCP Cymru Wales ac mae ar gael i'w wylio ar RCP Player tan 8 Mawrth 2022. Eleni, rydym hefyd wedi cyhoeddi nifer o storïau ac erthyglau ar wefan RCP ac yng nghylchgrawn aelodau'r RCP, *Commentary*. Ac rwyf hefyd yn gobeithio bod fy mlog misol yn dal yn fuddiol a diddorol!

Os oes gennych rywbeth yr hoffech dynnu sylw ato, cofiwch gysylltu â'r tîm. Rydym yn chwilio'n barhaus am astudiaethau achos a storïau o'r rheng flaen.

Cofiwch, bydd etholiadau am swydd is-lywydd yr RCP yng Nghymru'n cael eu cynnal yn ddiweddarach yn 2022. Os yw'r hyn rydych wedi'i ddarllen heddiw wedi'ch ysbrydoli, pam wna wnewch chi ystyried sefyll? Yn awr, yn fwy nag erioed o'r blaen, wrth inni ailadeiladu ar ôl y pandemig, mae aelodau a chymrodyr yr RCP yn haeddu cael llais cryf yn y Senedd, yn y cyfryngau, ac yn Llywodraeth Cymru.

Mi hoffwn eich atgoffa hefyd i gwblhau'r cyfrifiad 3-RCP 2021. Mae'r cyfrifiad ymgynghorwyr a'r cyfrifiad hyfforddeion uwch yn agored yn awr. Gofynnwn i chi ei lenwi a'n helpu ni i'ch helpu chi i lobio dros newid yn GIG Cymru.

Mae heriau o'n blaenau, ond gyda'n gilydd mi wyddwn fod meddygaeth yn wych, a hefyd ein haelodau.

**Dr Olwen Williams OBE**
Is-lywydd yr RPC yng Nghymru
Ymgynghorydd mewn iechyd rhywiol a meddygaeth HIV

gyda

**Dr Mick Kumwenda**
Cynghorydd rhanbarthol RCP ar gyfer gogledd Cymru

**Dr Vivek Goel**
Cynghorydd rhanbarthol RCP ar gyfer de-ddwyrain Cymru

**Dr Hilary Williams**
Cynghorydd rhanbarthol RCP ar gyfer de-ddwyrain Cymru

**Dr Sam Rice**
Cynghorydd rhanbarthol RCP ar gyfer de-orllewin Cymru